# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 10

AMRYWIOL

## PENNOD 1

DARPARIAETHAU PELLACH YN YMWNEUD Â CHONTRACTAU MEDDIANNAETH

*Effaith cyrraedd 18*

### 233 Effaith cyrraedd 18

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i denantiaeth neu drwydded nad yw'n gontract meddiannaeth am fod paragraff 7(2) o Atodlen 2 (pob un o'r rheini y gwneir tenantiaeth neu drwydded â hwy o dan 18) yn gymwys iddi.

(2) Pan fydd y person perthnasol yn cyrraedd 18 oed, rhaid ateb y cwestiynau canlynol fel pe bai'r denantiaeth neu'r drwydded wedi ei gwneud ar y diwrnod y mae'r person yn cyrraedd yr oed hwnnw—

- (a) pa un a yw'r denantiaeth neu'r drwydded yn gontract meddiannaeth,
- (b) pwy yw deiliaid y contract o dan y contract, ac
- (c) a yw'n gontract diogel neu'n gontract safonol.

(3) Y person perthnasol—

- (a) os gwneir y denantiaeth neu'r drwydded gydag un person, yw'r person hwnnw, a
- (b) os gwneir y denantiaeth neu'r drwydded gyda mwy nag un person, yw'r cyntaf ohonynt i gyrraedd 18 oed.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 233 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 233 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 233 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 233 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5